Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Ffridd Y Llyn
**Cefnddwysarn**
**Y Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Ffridd y Llyn wedi'i lleoli yn ardal Cefnddwysarn sydd oddeutu tair milltir o dref Y Bala, Sir Gwynedd. Mae 64 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu 66% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ffridd y Llyn yn 2014-2015 yw £3,582. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Ffridd y Llyn yn y 72fed safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2009.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn ystod Chwefror 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Addysgu'n rhagorol yn nosbarth ieuengaf y Cyfnod Sylfaen ac yn dda yng ngweddill yr ysgol
- Safonau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Gan bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach
- Yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn perthnasu'n dda â'i gilydd
- Cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg
- Profiadau dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus
- Ethos yr ysgol yn creu amgylchedd croesawgar a hapus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Yr ysgol yn arwain y sector ym maes y Cyfnod Sylfaen
- Y pennaeth yn cyfleu gweledigaeth glir i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel
- Dealltwriaeth drylwyr llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol yn grymuso eu rôl fel cyfeillion beirniadol
- Hunanarfarnu'n effeithiol ac wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth
- Athrawon yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- Ystod o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth
- Yr ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae cyflenwad da o adnoddau
- Yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cynhyrchu llawysgifen glwm

A2 Cynyddu gwybodaeth aelodau'r cyngor eco am eu rolau a'u cyfrifoldebau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O flynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen, maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau ar dasgau dros gyfnodau estynedig, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

O ystyried eu gallu a'u hoedran, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn defnyddio ystod eang o eirfa wrth drafod eu gwaith a'u tasgau. Maent yn sgwrsio'n hyderus gyda staff a chydag ymwelwyr i'r ysgol. Mae llawer yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn Gymraeg ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn trafod cynnwys eu llyfrau yn fanwl, yn mynegi barn am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau ac yn arddangos dealltwriaeth dda o'r testun. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i ystod o ddibenion a chyda chywirdeb cynyddol. Mae llawer, ac yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen, yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu creadigol wrth iddynt gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth, er enghraifft wrth iddynt drafod effaith colli eu cartrefi ar drigolion Cwm Tryweryn. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n hyderus i ystod eang o ddibenion ac yn cyfansoddi storïau o safon uchel. Er bod bron pob disgybl yn cynhyrchu llawysgrifen ddealladwy, nid yw disgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu mewn llawysgrifen glwm.

Mae bron pob disgybl sy'n dysgu'r Gymraeg yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Wedi iddynt gasglu gwybodaeth am hoff ddiodydd y dosbarth, mae disgyblion ieuengaf y cyfnod yn cyflwyno'r data yn drefnus ar ffurf graffiau ac yna'n dehongli'r wybodaeth yn ofalus. Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o unedau mesur safonol ac o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn, yn gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynd i'r afael â thasgau rhifedd ymarferol yn hyderus ac yn systematig. Mae eu gallu i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen, yn gryfder. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau saith digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymchwilio i faint o fysiau byddai eu hangen i gludo nifer penodol o blant, mae'r disgyblion yn casglu data o ystod o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau a graffiau. Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd deilliant 5 yn 2014, yn y 25% uchaf mewn llythrennedd a mathemateg. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, roedd perfformiad yn y ddau faes yn y 50% is. Yn 2014, roedd y gyfran a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn y 25% uchaf yn y ddau faes. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd y perfformiad, gan amlaf, yn y 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, roedd perfformiad mewn Saesneg a mathemateg, gan amlaf, yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Yn amlach na pheidio, roedd perfformiad ar lefel 5 yn y 50% isaf yn y pedwar pwnc.

Ar y cyfan, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim o gymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach. Mae'r arfer ddyddiol a gaiff pob disgybl i gymryd rhan yn y rhaglen 'Dal i Fynd' yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at gynyddu eu ffitrwydd personol.

Yn ystod gwersi, mae pob disgybl yn frwdfrydig tuag at eu profiadau dysgu gan ddyfalbarhau ar dasgau dros gyfnodau estynedig. Mae'r hyder sydd gan ddisgyblion ieuengaf y Cyfnod Sylfaen wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu yn nodwedd ragorol sy'n gwella'u dysgu'n sylweddol.

Mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn perthnasu'n dda â'i gilydd a chydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau ar dasg dros gyfnod estynedig.

Trwy'r cyngor ysgol, mae gan ddisgyblion gyfrifoldebau pendant a llais dylanwadol am yr hyn sy'n digwydd yng nghymuned yr ysgol. Mae'r arfer o ofyn barn disgyblion wrth benderfynu ar themâu'r tymor yn sicrhau bod ganddynt lais cryf ar gynnwys y cwricwlwm. Er bod cyngor eco wedi ei sefydlu, mae ymwybyddiaeth y grŵp o'u cyfrifoldebau ac o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, yn arwynebol.

Mae arferion fel cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn yr eglwys a manteisio ar dalentau'r ardal leol, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau cymdeithasol disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w cymuned.

Yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn y 50% uwch o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd cyfraddau presenoldeb yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio trylwyr yr athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau amrywiol a chyfraniadau gan y gymuned ehangach, yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac ansawdd y profiadau dysgu.

Mae'r amrediad eang o weithgareddau yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'u medrau meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae hon yn nodwedd ragorol yn nosbarth disgyblion ieuengaf y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael effaith arwyddocaol ar gynnydd ac ansawdd dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Daw trigolion o'r ardal i ddysgu cerdd dant a llefaru i'r plant a gwahoddir beirdd ac artistiaid preswyl i gydweithio â'r disgyblion. Caiff yr ymweliadau hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r cysylltiadau a grëwyd gyda gwledydd eraill fel India a Patagonia yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes, dda ac maent yn herio pob disgybl i wneud ei orau ac i gyflawni'n dda. Maent yn disgwyl llawer gan ddisgyblion ac yn annog pob un ohonynt i gymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae hon yn nodwedd ragorol yn nosbarth ieuengaf y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r arfer o rannu amcanion a meini prawf llwyddiant gwersi gyda disgyblion yn cryfhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw ac yn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i'r dysgu a'r addysgu. Mae'r berthynas glos, ynghyd â'r synnwyr o ymddiriedaeth sydd rhwng disgyblion ac oedolion, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu cymuned ddysgu gref.

Yn ystod gwersi, mae'r athrawon a chymorthyddion yn holi'n fedrus ac yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn herio syniadau disgyblion ac ymestyn eu dealltwriaeth. Mae athrawon ym mhob dosbarth yn defnyddio amrediad eang o ddulliau addysgu fel gwaith grŵp, parau a chyflwyniadau dosbarth cyfan, yn effeithiol er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a hyrwyddo ymddygiad da.

Trwy asesu parhaus a dadansoddiadau manwl o ddata asesu, caiff cynnydd pob unigolyn ei fonitro'n systematig**.** Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion yn ôl yr angen.

Bydd athrawon yn rhoi adborth manwl ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at welliant parhaus.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth glir am gynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau addoli ar y cyd dyddiol, ynghyd â'r cyfleoedd i ddysgu am gredoau pobl o wahanol ddiwylliannau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd sydd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau 'Ffrindiau Ffeind' yn hyrwyddo perthynas glòs rhwng disgyblion o wahanol oedran yn effeithiol.

Mae'r strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, sy'n cael eu gweithredu drwy'r ysgol, yn effeithiol ac yn dysgu disgyblion i ymbwyllo ac i fod yn fwy ystyriol o deimladau pobl eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan ac mae cysylltiadau buddiol gydag asiantaethau arbenigol er mwyn cefnogi datblygiad disgyblion. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn bwrpasol ac yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y disgyblion hyn.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos croesawgar a hapus yr ysgol yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar sydd yn dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac yn cryfhau eu hunanhyder.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau priodol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi'r dysgu ac addysgu.

Mae arddangosfeydd yr ysgol yn rhoi pwyslais clir ar ddathlu cyflawniadau a llwyddiant y disgyblion ac yn hybu dysgu symbylus. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith celf sy'n cael ei arddangos o gwmpas yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd allanol helaeth i gyfoethogi'r dysgu ac addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys ardal y Cyfnod Sylfaen, yr ardd wyllt a'r gweithgareddau corfforol heriol a ddarperir ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

Mae'r adeiladau o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn effeithiol. Mae'r amgylchedd ffisegol a'r defnydd pwrpasol o adnoddau yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan bennaeth cydwybodol sy'n cyfleu gweledigaeth glir i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'n llwyddo i greu ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad cytunedig i waith yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran cyflawniad a'r ddarpariaeth.

Mae ffocws clir yn yr ysgol ar godi safonau a gwelliant parhaus. Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cydweithio'n agos fel tîm ac, o dan arweiniad y pennaeth, wedi rhoi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio. Mae pob aelod staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n drylwyr ac yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn arwain y sector ym maes y Cyfnod Sylfaen ac wedi rhannu ei harferion da gyda nifer helaeth o ysgolion eraill. Mae hwn yn arfer ragorol.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar drafod strategaethau addas ar gyfer ehangu safonau a lles y disgyblion. Mae'r pwyslais cryf a roddir yn y cyfarfodydd hyn ar ddehongli data perfformiad a chraffu ar lyfrau disgyblion yn sicrhau bod gan athrawon wybodaeth gyfredol am berfformiad disgyblion â'r meysydd sydd angen gwelliant.

Mae trefniadau clir ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft trwy ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Maent yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o berfformiad yr ysgol a sut mae'n cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae hyn yn grymuso eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol ac yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol i brosesau cynllunio strategol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn grymuso adnabyddiaeth staff a llywodraethwyr o sefyllfa gyfredol yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r hunanarfarnu yn arwain at welliannau gwerthfawr mewn safonau grwpiau o ddisgyblion ac mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o amrediad o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data perfformiad, deilliannau arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i arfarnu cynnydd ac i adnabod y mannau hynny sydd angen eu gwella. Mae llais disgyblion a rhieni yn cael ei gynnwys yn y broses hunanarfarnu drwy gyfrwng holiaduron yn briodol.

Er yn ailadroddus mewn rhai mannau, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'n rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol o ran y safonau a'r ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy hunanarfarnu yn effeithiol i adnabod blaenoriaethau a gaiff eu cynnwys yng nghynllun gwella ysgol. Mae'r camau gweithredu yn cyfrannu tuag at wella safonau ar draws yr ysgol, ac yn arbennig wrth ymateb i flaenoriaethau fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r trefniadau adolygu'n dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau cynhyrchiol sydd rhwng yr ysgol a nifer o bartneriaid yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn ymestyn safonau a lles disgyblion yn sylweddol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan rieni wybodaeth gyfredol am wahanol weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r llyfrau cyswllt cartref yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni am gynnydd medrau darllen eu plant yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r bartneriaeth gref a'r cydweithio agos sydd rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn hwyluso trefniadau trosglwyddo'r plant i'r ysgol. Mae'r trefniadau pontio effeithiol a chydweithio llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol, yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae cysylltiadau buddiol gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd lleol. Mae'r ysgol yn cyd-weithio'n glòs gyda'r ysgolion hyn er mwyn cymedroli lefelau cyraeddiadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill cyfagos i gynllunio gweithgareddau ar y cyd; er enghraifft, er mwyn datblygu strategaethau asesu ac i hyrwyddo medrau meddwl a rhannu arferion da.

Mae’r ysgol yn weithgar yn y gymuned ac yn manteisio’n rheolaidd ar arbenigeddau crefftwyr ac artistiaid lleol, sy’n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol. Mae cysylltiadau buddiol gyda busnesau lleol yn hyrwyddo medrau menter disgyblion a’u dealltwriaeth o fyd gwaith yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn elwa o’i phartneriaeth gyda cholegau a phrifysgolion sy’n lleoli myfyrwyr a chymorthyddion o dan hyfforddiant yn ei dosbarthiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau’n cael eu rheoli'n dda, er enghraifft, drwy ddefnyddio arbenigedd athrawes i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig i wella’r defnydd o lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r llywodraethwyr a’r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus i sicrhau nad oes gorwariant a bod swm y cyllid wrth gefn yn rhesymol. Maent yn sicrhau bod cyflenwad priodol o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion o bob oedran.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion sy’n tangyrraedd.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612220 - Ysgol Ffridd y LLyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 66 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 13 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.7 | 76.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 12 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 25.0 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 84.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 7.7 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 46.2 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612220 - Ysgol Ffridd y LLyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 66 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 9 | 6 | 13 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| | | | | |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 9 | 6 | 13 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 33.3 | 0.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 9 | 5 | 13 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 88.9 | 100.0 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 33.3 | 0.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 9 | 6 | 13 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 11.1 | 33.3 | 23.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 |
| | | | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 9 | 6 | 13 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 33.3 | 16.7 | 15.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 32 | 31<br>97%<br>92% | 1<br>3%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 34 | 32<br>94%<br>97% | 2<br>6%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 34 | 34<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 33 | 33<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 34 | 34<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 35 | 35<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 32 | 31<br>97%<br>91% | 1<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 35 | 34<br>97%<br>95% | 1<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 34 | 33<br>97%<br>77% | 1<br>3%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 35 | 34<br>97%<br>84% | 1<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 53 | 36 | 11 | 3 | 2 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 21% | 6% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 53 | 38 | 12 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 23% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 53 | 38 | 15 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 53 | 29 | 17 | 3 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 55% | 32% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 53 | 31 | 17 | 4 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 58% | 32% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 53 | 33 | 14 | 1 | 2 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 26% | 2% | 4% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 53 | 34 | 15 | 2 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 64% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 53 | 24 | 20 | 4 | 3 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 38% | 8% | 6% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 53 | 34 | 12 | 5 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 23% | 9% | 4% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 53 | 37 | 16 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 53 | 38 | 11 | 2 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 21% | 4% | 4% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 49 | 27 | 14 | 3 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 29% | 6% | 2% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 53 | 26 | 19 | 6 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 36% | 11% | 4% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 53 | 33<br>62% | 13<br>25% | 4<br>8% | 3<br>6% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 53 | 27<br>51% | 19<br>36% | 2<br>4% | 3<br>6% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 53 | 32<br>60% | 16<br>30% | 3<br>6% | 1<br>2% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 41 | 20<br>49% | 11<br>27% | 1<br>2% | 1<br>2% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 52 | 26<br>50% | 15<br>29% | 8<br>15% | 1<br>2% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 53 | 36<br>68% | 10<br>19% | 4<br>8% | 2<br>4% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Wendy Rowlands | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Emyr Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.